

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clinig City Skin Doctor, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2025

Dyddiad cyhoeddi: 29 Hydref 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
	Atodiad C - Cynllun gwella	20

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yng Nghlinig City Skin Doctor ar 29 Gorffennaf 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr ac ni chwblhawyd yr un holiadur gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod pob aelod o'r staff yn City Skin Doctor yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu croesawu mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar.

Roedd y safle yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i'r cleifion a disgrifiodd y staff brosesau ymgynghori trylwyr. Roedd holl gofnodion y cleifion yn electronig ac yn cael eu cadw'n ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod darpar gleifion yn ymwybodol o gyfyngiadau hygrychedd y safle.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Adborth cadarnhaol gan y cleifion am y gwasanaethau a ddarperir.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd mesurau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith.

Roedd yr uned laser wedi cael ei gwasanaethu a'i chynnal a'i chadw'n briodol. Roedd Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi'i benodi, yn ogystal â Rheolau Lleol cyfredol ac asesiad risg. Roedd protocolau triniaeth cynhwysfawr ar waith.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau mesurau diogelwch tân
- Adolygu a diweddarau polisiâu a gweithdrefnau diogelu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal a chadw'r safle a'r cyfarpar yn ddiogel ac yn rheolaidd
- Sicrhau bod y ddogfennaeth ar gyfer y laser ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd arweinyddiaeth glir yn y clinig ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion. Gwelsom agwedd gadarnhaol tuag at gasglu adborth ac ymateb iddo.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn cefnogi'r staff a hyrwyddo prosesau i ddarparu gwasanaethau'n ddiogel.

Pan nodwyd mater gyda chofnodion hyfforddiant y staff, cafodd ei ddatrys o fewn 24 awr i'r arolygiad, gan ddangos ymrwymiad i fynd i'r afael â materion pan gânt eu nodi.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi systemau ar waith i fonitro a nodi gofynion hyfforddiant y staff
- Sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cynnwys gwybodaeth sy'n benodol i'r clinig hwn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Prosesau clir ar gyfer ymdrin â chwynion.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC i gleifion yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd yr ymatebwyr yn fodlon bod y clinig yn lân, bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch a bod y gwasanaeth a ddarparwyd o safon uchel.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwaith gwych gan dîm gwych. Proffesiynol iawn ac amgylchedd glân. Rwy'n teimlo fy mod wedi cael pob cyfle i ofyn cwestiynau ac wedi cael y cyngor gorau bob amser."

"Dyma fy mhumed triniaeth a bob tro rwy'n ymweld mae'r tîm proffesiynol a chyfeillgar yn darparu gwasanaeth ardderchog."

Diogelu a gwella iechyd

Roedd y rheolwr cofrestredig wedi'i gofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a dywedodd wrthym ei fod yn trafod materion diogelu iechyd â chleifion fel y bo'n briodol yn unol â'u triniaeth. Gallai hyn gynnwys cyngor cyffredinol ar fwyta'n iach ac ymarfer corff, a byddai cleifion a oedd yn cael triniaethau laser yn cael cyngor penodol ar sut i ddiogelu eu croen a gofalu amdano.

Urddas a pharch

Roedd yr ystafell drin i lawr y grisiau heb unrhyw ffenestri ac roedd drws y gellid ei gloi er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion yn ystod triniaethau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai cleifion newid, pe bai angen, yn yr ystafell drin ac y byddai'r aelodau o'r staff yn gadael yr ystafell er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y claf.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl ar lafar cyn ac ar ôl eu triniaeth, er mwyn sicrhau y gallent wneud penderfyniad gwybodus am y driniaeth.

Roedd pecyn gwybodaeth i gleifion yn cael ei ddarparu i'r cleifion ac roedd pecynnau ar gael wrth ddesg y dderbynfa hefyd. Roedd y pecyn yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir, cwyno, prisiau ac adborth cleifion. Gwnaethom nodi nad oedd y pecyn yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer AGIC, fel yr awdurdod cofrestru. Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad drwy ychwanegu'r manylion priodol ac argraffu copïau.

Roedd ffurflenni ymgynghori yn cael eu storio'n ddiogel. Gwelsom y ffurflenni ymgynghori wedi'u cwblhau a oedd yn cynnwys hanes meddygol, llofnod i ddangos bod y cleifion yn cydsynio a bod profion croen wedi'u cynnal.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth a dywedodd pob un o'r cleifion ond un eu bod wedi cael prawf croen.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y clinig yn darparu gwybodaeth am ei wasanaethau ar y safle ac ar y wefan.

Roedd y wefan yn cynnwys manylion am y rheolwr cofrestredig, y gwasanaethau a ddarperir, prisiau triniaethau laser ac ystod o bolisiau sy'n berthnasol i gleifion.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol.

Cynllunio a darparu gofal

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn triniaeth a bod y canlyniadau'n cael eu dogfennu fel rhan o gofnod triniaeth y claf.

Gwelsom fod cofrestr triniaethau yn cael ei chadw ar gyfer yr uned laser a oedd yn cynnwys enw'r claf, dyddiad y driniaeth a'r ardal a gafodd ei thrin. Yna cysylltwyd y wybodaeth hon â chofnod electronig manylach ar gyfer y claf, a oedd yn nodi manylion y claf gyda ffotograff, y math o groen, hanes meddygol a hanes triniaethau. Roedd y cofnod ar gyfer pob sesiwn driniaeth, yn cynnwys yr ardal a gafodd ei thrin a gan bwy, y paramedrau a ddefnyddiwyd ac a gafwyd unrhyw adwaith niweidiol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith yn y clinig, a oedd yn cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a nodweddion gwarchodedig.

Nid oedd yr ystafell drin yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn na chleifion ag anawsterau symudedd gan ei bod ar yr is-lawr, gyda dim ond grisiau i'w chyrraedd. Gwnaethom gynghori y dylai cleifion gael gwybod am y materion

mynediad y tu mewn i'r clinig. Codwyd y mater hwn mewn arolygiad blaenorol ond nid oedd y clinig wedi ymdrin ag ef.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion unigol a gofynion hygyrchedd cleifion eu hystyried a, lle y bo'n bosibl, y caiff addasiadau rhesymol eu rhoi ar waith. Dylai hyn gynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad o Ddiben er mwyn hysbysu'r cleifion o'r materion mynediad y tu mewn i'r clinig.

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cynnwys manylion i nodi enwau neu ragenwau a ffefrir a chawsom ein sicrhau y caiff cleifion trawsryweddol eu trin â pharch.

Roedd pawb a atebodd holiadur AGIC yn cytuno nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd un claf:

“Maen nhw'n trin pawb yn deg yma.”

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd gan y clinig flwch awgrymiadau i gleifion gyflwyno adborth ysgrifenedig ar y safle. Gwelwyd posterï a oedd yn ceisio adborth yn weithredol, gan ddefnyddio codau QR a oedd yn cyfarwyddo cleifion i adael adolygiadau Google ar-lein.

Dywedwyd wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i drafod yn ystod cyfarfodydd tîm.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Ar y cyfan, nodwyd bod y safle yn ddiogel, yn daclus ac mewn cyflwr da.

Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol yn ogystal ag uned gwaredu eitemau mislif. Roedd cegin ar gael i'r staff ac ardal storio ar gyfer eu heiddo.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan y clinig bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion yn y clinig.

Gwelsom dystiolaeth o adroddiad cyfredol ar osodiadau trydanol a phrofion offer cludadwy.

Gwnaethom ystyried y trefniadau sydd ar waith ar gyfer diogelwch tân a gwelsom ddiffoddwyr tân amrywiol oedd wedi'u gwasanaethu'n briodol ac allanfeydd tân ag arwyddion clir. Gwnaethom nodi bod gorchudd draen ar goll ger yr allanfa dân yn y cefn a oedd yn peri perygl baglu, a gwnaethom gynghori y dylid gosod un newydd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gorchudd newydd ei osod ar y draen ger y drws tân yn y cefn.

Roedd y cofnodion yn dangos bod y larwm tân yn cael ei brofi'n rheolaidd, ond nid oedd unrhyw ymarferion gwagio'r adeilad wedi cael eu cynnal.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal ac y caiff cofnodion eu cadw.

Roedd asesiad risg tân ar waith. Gwnaethom nodi bod y ddogfen yn rhestru lleoliadau'r diffoddwyr tân a oedd wedi cael eu symud ers hynny. Gwnaethom gynghori y dylid adolygu'r asesiad risg er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr asesiad risg tân ei adolygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.

Nid oedd tystiolaeth bod dau aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a rhoddwyd tystiolaeth i AGIC bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y dderbynfa ac roedd dau aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, nodwyd bod y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd yn cael ei lanhau'n effeithiol. Staff y clinig oedd yn gwneud y gwaith glanhau a gwelsom fod amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio.

Roedd yr ystafell drin yn ymddangos yn lân heblaw am un ardal fach o dan y gwely trin. Gwnaethom gynghori y dylid cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod y gwaith glanhau yn cael ei gwblhau'n drylwyr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod yr ystafell drin yn cael ei glanhau i'r safon ofynnol.

Roedd contract gwaredu gwastraff addas ar waith ac roedd y gwastraff clinigol yn cael ei drin a'i storio'n briodol.

Nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyfredol ar gyfer dau aelod o'r staff. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a rhoddwyd tystiolaeth i AGIC bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd a chadarnhaodd y staff mai dim ond oedolion oedd yn cael eu trin.

Roedd gan y clinig bolisi ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed. Ar gyfer safle Llundain y busnes y defnyddiwyd y polisi hwn yn bennaf ac nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol na chyfeiriad at Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y polisi diogelu ei ddiweddarau neu ei gefnogi gan ddogfen leol, fel bod:

- Manylion cyswllt lleol yn cael eu cynnwys a'u diweddarau
- Y staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru ac yn gallu cael gfael arnynt
- Siartiau llif ar gael i helpu'r staff i ymdrin â materion diogelu.

Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu ac roedd yn meddu ar dystiolaeth o hyfforddiant priodol. Darparodd aelodau eraill o'r staff dystiolaeth o hyfforddiant diogelu yn syth ar ôl yr arolygiad.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd yr uned laser mewn cyflwr da ac yn cael ei gwasanaethu a'i chynnal yn rheolaidd. Roedd y gweithredwr yn cynnal gwiriadau dyddiol, gan gynnwys glanhau'r uned. Dywedodd y staff wrthym y byddai proses galibradu fewnol yn cael ei chynnal yn awtomatig bob tro y byddai'r gosodiadau'n cael eu newid rhwng cleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod yr uned laser wedi cael ei newid er mwyn defnyddio fersiwn fwy diweddar o'r un model. Gwnaethom gynghori y dylai'r rheolwr cofrestredig gysylltu â Thîm Cofrestru AGIC am gyngor a diweddarau manylion yr uned os oes angen.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau. Gwelsom fod Rheolau Lleol ar waith, yr oedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi'u llofnodi ac a oedd yn benodol i'r clinig a'r uned laser. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu llofnodi gan bob defnyddiwr awdurdodedig.

Roedd asesiad risg cyfredol ar waith. Gwnaethom nodi bod yr asesiad yn cynnwys uned laser yn ogystal â'r un sydd wedi'i chofrestru ag AGIC. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod yr uned ychwanegol wedi cael ei symud draw o safle arall a'i chynnwys fel rhagofal, ond penderfynwyd peidio â'i defnyddio. Roedd yr uned yn cael ei storio ac nid oedd yn unrhyw un o'r ystafelloedd trin.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr.

Roedd gan yr uned laser switsh ag allwedd i'w gweithredu. Cawsom wybod y byddai'r allwedd yn cael ei gwisgo ar laniard gan aelod o'r staff fel arfer neu ei storio'n ddiogel pan nad oedd yr uned yn cael ei defnyddio. Roedd drws yr ystafell drin yn cael ei gloi pan nad oedd yr ystafell yn cael ei defnyddio.

Roedd arwyddion priodol ar y drws i'r ystafell drin er mwyn rhybuddio bod laser yn cael ei ddefnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd protocolau triniaeth priodol ar waith, gyda manylion paramedrau a thechnegau i'w defnyddio yn unol â'r math o groen a'r ardal sy'n cael ei thrin.

Darparwyd tystiolaeth yn ystod yr arolygiad ac yn syth ar ôl yr arolygiad i gadarnhau bod pob aelod o'r staff sy'n defnyddio'r laser wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd aelod o'r staff wedi cyflawni Lefel 4 VTCT (Ymddiriedolaeth Elusenol Hyfforddiant Galwedigaethol) ar gyfer Sgiliau mewn Triniaethau Laser a Goleuni Pwls Dwys (IPL) ac roedd yn helpu i hyfforddi myfyrwyr.

Roedd adborth gan gleifion ac unrhyw faterion a nodwyd gan y staff yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u trafod mewn cyfarfodydd tîm er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar system electronig a oedd yn cael ei lletya'n allanol. Dywedodd y staff wrthym fod y system yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gyda chyfnod cadw priodol.

Roedd iPad yn y dderbynfa i gwblhau manylion cleifion a chofnodi cydsyniad, ac roedd PIN i ddiogelu'r ddyfais er mwyn lleihau'r risg o fynediad heb awdurdod.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn glir yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd gan y clinig yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant cyflogwr cyfredol. Nid oedd y dystysgrif yn cael ei harddangos, ond ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad a chafodd copi ei argraffu a'i arddangos.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn gweithio mewn dau glinig ac yn bresennol yn y ddau bob wythnos.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol. Gwnaethom nodi lle roedd dogfennau'n cael eu defnyddio ar y ddau safle (Llundain a Chaerdydd), roedd rhai cyfeiriadau yn berthnasol i Loegr yn unig. Gwnaethom gynghori y dylai polisiau a gweithdrefnau gael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth sy'n benodol i Gymru yn cael ei chynnwys lle y bo'n berthnasol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu er mwyn cynnwys gwybodaeth sy'n benodol i Gymru, lle y bo'n berthnasol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith a oedd hefyd ar gael i'r cleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a manylion cyswllt i uwchgyfeirio pryderon at gyrff allanol.

Roedd polisiau a gweithdrefnau datgelu er lles y cyhoedd (chwythu'r chwiban) hefyd ar waith yn y clinig.

Gwnaethom nodi bod gwefan y clinig yn cynnwys gweithdrefn gwyno wahanol a oedd yn ymwneud yn benodol â chymwysterau a hyfforddiant y staff. Pan godwyd y mater gyda'r rheolwr cofrestredig, canfuwyd mai gwall gan y datblygwr oedd hyn lle roedd y ddogfen hon wedi disodli'r brif weithdrefn gwyno yn hytrach na chael ei hychwanegu ochr yn ochr â hi, fel y cynlluniwyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwefan y clinig yn cael ei diweddarau er mwyn cynnwys y fersiwn gywir o'r weithdrefn gwyno.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i recriwtio a sefydlu staff.

Drwy edrych ar gofnodion y staff, gwelsom fod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal, gan gynnwys defnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod digon o staff i ddarparu gwasanaethau'r clinig fel arfer, a bod staff ar gael i gynorthwyo myfyrwyr a oedd yn cwblhau hyfforddiant.

Gwelsom nad oedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cael eu rheoli'n effeithiol ac nid oedd system i'w gweld er mwyn nodi a monitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system gadarn ar waith i nodi a monitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Dangosodd adolygiad o gofnodion y staff feysydd lle nad oedd rhai ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant neu nid oedd yn gyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol: • Ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân • Atal a rheoli heintiau • Diogelu	Ni allem fod yn sicr bod y staff wedi cael yr hyfforddiant priodol i sicrhau diogelwch y cleifion.	Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig.	Ymdriniwyd â'r mater yn brydlon, a darparwyd tystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol i AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Clinig City Skin Doctor

Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig City Skin Doctor

Dyddiad yr arolygiad: 29 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd yr ystafell drin yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn na chleifion ag anawsterau symudedd gan ei bod ar yr is-lawr, gyda dim ond grisiau i'w chyrraedd. Gwnaethom gynghori y dylai cleifion gael gwybod am y materion mynediad y tu mewn i'r clinig.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion unigol cleifion a gofynion hygyrchedd eu hystyried a, lle y bo'n bosibl, y caiff addasiadau rhesymol eu rhoi ar waith. Dylai hyn gynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad o Ddiben er mwyn hysbysu'r cleifion o'r materion mynediad y tu mewn i'r clinig.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 6 ac Atodlen 1	Gwnaethom ddiweddarau ein datganiad o ddiben ar 15/08/25 er mwyn sicrhau bod ein cleientiaid yn ymwybodol o faterion hygyrchedd ar gyfer rhai triniaethau megis gwaredu blew gan ddefnyddio laser, <i>microdermabrasion</i> a thriniaethau wyneb.	Dr Ebrahim Feghenaby	Wedi gweithredu eisoes
2. Gwnaethom nodi bod gorchudd draen ar goll ger yr allanfa dân yn y	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gorchudd newydd ei osod ar	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol	Mae'r draen bellach wedi cael ei	Dr Ebrahim Feghenaby	Wedi gweithredu eisoes

	cefn a oedd yn peri perygl baglu.	y draen ger y drws tân yn y cefn.	(Cymru) 2011, Rheoliad 26	orchuddio'n briodol ers 15/08/25.		
3.	Roedd y cofnodion yn dangos bod y larwm tân yn cael ei brofi'n rheolaidd, ond nid oedd unrhyw ymarferion gwagio'r adeilad wedi cael eu cynnal.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal ac y caiff cofnodion eu cadw.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26	Cynhaliwyd yr ymarfer tân cyntaf ddydd Mawrth 12/08/25 ac mae cynllun ar waith i'w gynnal yn rheolaidd bob 4 mis.	Dr Ebrahim Feghenaby	Wedi gweithredu eisoes
4.	Roedd asesiad risg tân ar waith ond roedd angen ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff yr asesiad risg tân ei adolygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26	Cynhaliais adolygiad trylwyr o'r asesiad risg tân ar 12/08/25 a'i ddiweddarau i'r fersiwn fwyaf newydd gyda'r holl fanylion.	Dr Ebrahim Feghenaby	Wedi gweithredu eisoes
5.	Roedd yr ystafell drin yn ymddangos yn lân heblaw am un ardal fach o dan y gwely trin. Gwnaethom gynghori y dylid cynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod y gwaith glanhau yn cael ei gwblhau'n drylwyr.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod yr ystafell drin yn cael ei glanhau i'r safon ofynnol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 15	Cafodd hyn ei ychwanegu at ein hamserlen lanhau ar 15/08/25 gyda'r nod o wirio'r manau y tu ôl i'r gwelyau a'r soffas ddwywaith yr wythnos er mwyn sicrhau canlyniadau glanhau gwell.	Dr Ebrahim Feghenaby	Wedi gweithredu eisoes

6.	Roedd gan y clinig bolisi ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed. Ar gyfer safle Llundain y busnes y defnyddiwyd y polisi hwn yn bennaf ac nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol na chyfeiriad at Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y polisi diogelu ei ddiweddarau neu ei gefnogi gan ddogfen leol, fel bod: • Manylion cyswllt lleol yn cael eu cynnwys a'u diweddarau • Y staff yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru ac yn gallu cael gafael arnynt • Siartiau llif ar gael i helpu'r staff i ymdrin â materion diogelu.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 - Rheoliad 16	Cafodd y polisi diogelu ei ddiweddarau ar 13/08/25 er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth, y manylion cyswllt a'r siart lif atgyfeirio ar gyfer Cymru. Tynnwyd sylw'r staff at hyn yn ystod ein cyfarfod staff ar 19/08/25.	Dr Ebrahim Feghenaby	Wedi gweithredu eisoes
7.	Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn bodloni'r gofynion rheoliadol. Gwnaethom nodi lle roedd dogfennau'n cael eu defnyddio ar y ddau safle (Llundain a Chaerdydd), roedd rhai cyfeiriadau yn	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu er mwyn cynnwys gwybodaeth sy'n benodol i Gymru, lle y bo'n berthnasol.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 9	Rwyf eisoes wedi dechrau diweddarau'r holl bolisiau er mwyn cynnwys gwybodaeth berthnasol sydd ei hangen yn benodol ar gyfer Cosmetic City Skin Doctor Limited yng Nghymru.	Dr Ebrahim Feghenaby	I'w gwblhau erbyn 30/08/25

	berthnasol i Loegr yn unig.					
8.	Gwnaethom nodi bod gwefan y clinig yn cynnwys gweithdrefn gwyno wahanol i'r un a ddarparwyd yn y clinig.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwefan y clinig yn cael ei diweddarau er mwyn cynnwys y fersiwn gywir o'r weithdrefn gwyno.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 24	Mae'r fersiwn gywir o'r polisi cwynion bellach ar gael ar ein gwefan. Cafodd ei lanlwytho ar 30/07/25	Dr Ebrahim Feghenaby	Wedi gweithredu eisoes
9.	Gwelsom nad oedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cael eu rheoli'n effeithiol ac nid oedd system i'w gweld er mwyn nodi a monitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod system gadarn ar waith i nodi a monitro cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 20	Bydd angen i bob aelod o'r staff gwblhau arfarniad blynyddol er mwyn nodi eu hanghenion hyfforddiant. Bydd yn ofynnol iddynt ddiwallu eu hanghenion erbyn hynny. Os bydd angen unrhyw gymorth o ran cyllid neu absenoldeb (lle na chaiff yr hyfforddiant ei ddarparu'n fewnol), caiff ei drefnu gan y rheolwr gyfarwyddwr.	Dr Ebrahim Feghenaby	31/12/25

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):	Ebrahim Feghenaby
Teitl swydd:	Cyfarwyddwr Meddygol
Dyddiad:	24/08/2025